

# Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Mawrth 2025



Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Deddf Llywodraeth Cymru 1998

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyddestun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi adnabod unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint arno'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni trwy ffonio 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn Gymraeg neu yn Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

## Adroddiad cryno

Ffeithiau allweddol	4
Negeseuon allweddol	5
Argymhellion	9

## Adroddiad manwl

1 Rôl Llywodraeth Cymru	12
2 Sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn ymateb	30

## Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith	41
2 Camau ymarferol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth	45



# Ffeithiau allweddol



Fe wnaeth bywyd gwyllt yng Nghymru leihau **20%** ar gyfartaledd rhwng 1994 a 2023.



Roedd oddeutu **1 ymhob 6** o rywogaethau Cymru mewn perygl o ddifodiant yn 2023.



Aeth mwy nag **8 mlynedd** heibio ers i'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddod i rym.



Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi camau gweithredu ar fioamrywiaeth yn cynnwys:

- **£66 miliwn** a gyfer y Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur rhwng 2021-22 a 2024-25.
- **£54 miliwn** ar gyfer y Rhaglen Rhwydweithiau Natur gan gynnwys y Gronfa Rhwydweithiau Natur rhwng 2021-22 a 2024-25.



O blith yr awdurdodau cyhoeddus a oedd o fewn cwmpas ein gwaith:

- nid yw **49%** wedi cydymffurfio â'r gofyniad i baratoi a chyhoeddi cynllun bioamrywiaeth.
- nid yw **26%** wedi cydymffurfio ar unrhyw adeg â'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad bioamrywiaeth.



O blith yr awdurdodau cyhoeddus a ymatebodd i'n Galwad am Dystiolaeth:

- dywedodd **78%** fod ganddynt ddealltwriaeth eglur am gyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.
- roedd **38%** yn teimlo bod Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth a chanllawiau effeithiol i'w helpu i gydymffurfio â'r ddyletswydd.

Ffynhonnell: Daw data ar ddirywiad bywyd gwyllt o [Sefyllfa Natur Cymru 2023](#). Daw data ar farn o'n Galwad am Dystiolaeth a wnaeth gwmpasu 53 o awdurdodau cyhoeddus, er na wnaeth pob un ymateb iddo nac ymateb i bob cwestiwn. Daw data ar gynllunio ac adrodd o'm Galwad am Dystiolaeth ac ymholiadau dilynol ychwanegol ar draws y 53 o awdurdodau cyhoeddus a gwmpaswyd gennym er, yn ymarferol, bod y ddyletswydd yn cwmpasu llawer mwy o gyrff (gweler **Atodiad 1**).

Nodyn: Mae'r dirywiad mewn bywyd gwyllt yng Nghymru rhwng 1994 a 2023 yn seiliedig ar fonitro 380 o rywogaethau. Mae'r rhywogaethau a oedd mewn perygl o ddifodiant yn 2023 yn seiliedig ar 663 o rywogaethau o'r 3,897 a aseswyd.

# Negeseuon allweddol

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 O'i fynegi'n syml, amrywiaeth bywyd ar y Ddaear yw bioamrywiaeth. Er yn gydgysylltiedig, diffinnir bioamrywiaeth yn gyffredin yn nhermau amrywiaeth mewn genynnau o fewn rhywogaethau, rhwng rhywogaethau, ac ar draws gwahanol ecosystemau. Mae ecosystemau cydnerth, iach yn rhoi inni fwyd, dŵr ac aer glân, deunyddiau crai, ac yn darparu ynni ar gyfer diwydiant. Maent hefyd yn ein diogelu rhag effeithiau newid hinsawdd.
- 2 Yn 2015, fe gydnabu Cynllun Gweithredu Adfer Natur<sup>1</sup> (NRAP) Llywodraeth Cymru fod Cymru ymhell o gyrraedd nodau bioamrywiaeth cenedlaethol a rhyngwladol. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn amcanu at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae'n gosod dyletswydd benodol ar awdurdodau cyhoeddus (gweler **Arddangosyn 1**). Datganodd y Senedd argyfwng natur ym mis Mehefin 2021 ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn gwreiddio ei hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wna<sup>2</sup>.

## Arddangosyn 1: y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

Mae Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau estynedig ar awdurdodau cyhoeddus (y ddyletswydd).

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus '(gynnal) a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'.

Rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn cynnig ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Rhaid iddynt hefyd adrodd ar yr hyn y maent wedi ei wneud. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus adolygu eu cynllun wrth adrodd, er y gallant ei ddiwygio unrhyw bryd.

Roedd yr adroddiadau cyntaf i fod i gael eu cyhoeddi cyn diwedd 2019, a'r ail gylch cyn diwedd 2022. Mae'r cyfnod adrodd cyfredol o dair blynedd yn rhedeg tan ddiwedd 2025.



Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru

- 1 Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cynnwys dwy ddogfen: Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Adfer Natur: Ein Strategaeth ar gyfer Natur, Rhagfyr 2015, a Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2020-21, 2020.
- 2 Llywodraeth Cymru, Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant, Mehefin 2021

- 3 Fe wnaeth ein hadolygiad lefel uchel ystyried a yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill yn ymateb yn briodol i'r ddyletswydd. Fe wnaethom fwrw golwg ar arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru ac ar sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn gweithio i gydymffurfio, yn bennaf o ran y gofynion cynllunio ac adrodd. Nid ydym wedi archwilio eu camau gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth.
- 4 Rydym hefyd wedi defnyddio ein gwaith i rannu gwersi gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ystyried newidiadau i gyfraith amgylcheddol. Gallai'r cynigion newid ond maent yn amcanu'n fras at wreiddio set o egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith, cyflwyno targedau bioamrywiaeth, a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd.
- 5 Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o fanylion am ddatblygu'r cynigion. Mae hefyd yn egluro cwmpas ein gwaith, a oedd yn canolbwyntio ar 53 o awdurdodau cyhoeddus. Yn ymarferol, mae'r ddyletswydd yn cwmpasu llawer mwy o gyrff. Mae'r rheiny'n cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.
- 6 Mae **Atodiad 2** yn rhoi enghreifftiau o gamau gweithredu ymarferol y mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu y gallai awdurdodau cyhoeddus eu cymryd i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

## Casgliad ar y cyfan

- 7 Nid yw'r argyfwng natur wedi bod yn flaenoriaeth ddigon uchel i awdurdodau cyhoeddus, ac mae llawer wedi methu â chydymffurfio â gofynion cynllunio a/neu adrodd allweddol y ddyletswydd. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â'i gofyniad cynllunio hi ei hun, nid yw'n gweithio'n effeithiol i fonitro sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio, ac ar hyn o bryd nid yw'n gallu asesu effaith gyffredinol y ddyletswydd ar ddirywiad bioamrywiaeth.
- 8 Nid ymdriniwyd yn llawn â llawer o'r materion yr ydym ni'n ei nodi ers iddynt gael eu hamlygu mewn gwerthusiad yn 2021<sup>3</sup>. Mae'r rhain yn cynnwys ansicrwydd ynghylch pa awdurdodau cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn eu cwmpasu, yr angen i gryfhau canllawiau Llywodraeth Cymru, a dwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif yn fwy.
- 9 Mae ein hadroddiad ni'n dilyn adroddiad diweddar ar golli natur gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith Senedd Cymru<sup>4</sup>. Mae adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys ffocws gwahanol i'n gwaith ni, gan ystyried materion ehangach, ond mae'n ymdrin â'r ddyletswydd. Cydnabu'r Pwyllgor ymrwymadau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030. Fodd bynnag, fe wnaeth hefyd feirniadu cyflymder ei hymateb, gan gynnwys mewn perthynas â chynigion i newid cyfraith amgylcheddol.

---

3 Ymchwil OB3 a Phartneriaeth BRO, Gwerthusiad o Roi'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 ar Waith, 2021 (heb ei gyhoeddi). Llywodraeth Cymru a gomisiynodd y gwerthusiad.

4 Senedd Cymru, Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith, [Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030](#), Ionawr 2025

## Canfyddiadau allweddol

---

### Rôl Llywodraeth Cymru

- Mae gwendidau yn y Ddeddf a'i chanllawiau'n gadael eu cwmpas a'u bwriad yn agored i gael eu dehongli ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn anghywir i dybio nad yw wedi'i chynnwys yng ngofynion cynllunio'r ddyletswydd.
- Fe wnaeth y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus sylwadau cadarnhaol am agweddau ar arweinyddiaeth strategol genedlaethol ond ceir meysydd i'w gwella yng nghymorth a chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Ceir tystiolaeth bod y dull strategol o ymdrin â bioamrywiaeth yn cael ei integreiddio i ryw raddau â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru ond bu llawer llai o ffocws cenedlaethol ar fioamrywiaeth nag ar ddatgarboneiddio.
- Er bod Llywodraeth Cymru'n darparu amryw ffrydiau ariannu, dywedodd awdurdodau cyhoeddus wrthym am rwystrau ariannol a rhwystrau o ran adnoddau i gynnal a gwella bioamrywiaeth.
- Nid yw Llywodraeth Cymru'n dwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif trwy fynd ati'n rheolaidd i fonitro neu orfodi eu cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd.
- Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau ar gyfer bioamrywiaeth eto ac ar hyn o bryd nid yw'n gallu asesu effaith gyffredinol y ddyletswydd ar ddirywiad bioamrywiaeth.

---

### Sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn ymateb

- Nid yw bron hanner yr awdurdodau cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r gofyniad i baratoi a chyhoeddi cynllun bioamrywiaeth ac mae dulliau o gynllunio'n amrywio'n eang.
  - Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau adrodd a thempled dewisol, nid yw oddeutu chwarter yr awdurdodau cyhoeddus erioed wedi llunio adroddiad bioamrywiaeth.
  - Rhoddodd awdurdodau cyhoeddus farn a oedd yn gadarnhaol at ei gilydd ynglŷn â'u trefniadau mewnol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth ond, ar y cyfan, mae'n dal yn wir bod angen iddynt wneud mwy i greu diwylliant sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar yr argyfwng natur.
-



Dylai'r ddyletswydd a nodir yn y Ddeddf fod yn ddatganiad grymus ynglŷn â'r angen i'r holl awdurdodau cyhoeddus gymryd camau gweithredu pendant ar ddirywiad bioamrywiaeth. Ond nid yw bwriadau da ac enghreifftiau o gyllid ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth yn ddigon. Mae angen i Lywodraeth Cymru ei hun wneud mwy i arwain trwy esiampl, rhoi cymorth i wella, a chymryd diddordeb mwy brwd yn y modd y rhoddir ei deddfwriaeth hi ei hun ar waith ac yn effaith y deddfwriaeth honno. Mae ganddi gyfle i wneud yn union hynny wrth iddi ystyried newid i gyfraith amgylcheddol ond bydd angen iddi sicrhau bod gwaith yn y maes hwn yn cael y flaenoriaeth y mae'n ei haeddu er mwyn iddi wrthdroi colli natur ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

---

**Adrian Crompton**  
Archwilydd Cyffredinol Cymru





# Argymhellion

- 10 Mae ein hargymhellion yn ymwneud yn bennaf â'r ddyletswydd gyfredol. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb yn awr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen iddi ystyried ei chamau gweithredu ochr yn ochr â'i chynigion i newid cyfraith amgylcheddol, ac ochr yn ochr â'i hymateb i adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith Senedd Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai rhai o'r camau gweithredu hyn, ymhen amser, fod yn gyfrifoldeb i'r corff llywodraethu amgylcheddol newydd y mae'n ei gynnig.

## Argymhellion

### Ei gwneud hi'n glir pa awdurdodau cyhoeddus a gwmpesir gan y ddyletswydd

- A1 Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhestr o awdurdodau cyhoeddus a gwmpesir gan y ddyletswydd. Dylai wneud hyn cyn y terfyn amser nesaf ar gyfer adrodd ar ddiwedd 2025. Dylai ddiweddarau'r rhestr pan fo unrhyw awdurdod cyhoeddus newydd a gwmpesir gan y ddyletswydd yn cael ei greu (gweler **paragraffau 1.2 i 1.5**).

### Monitro'r modd y cydymffurfir â'r ddyletswydd

- A2 Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyflwyno eu cynlluniau ac adroddiadau bioamrywiaeth iddi pan ydynt yn cael eu cyhoeddi neu eu diwygio. Dylai hefyd fynd ar ôl awdurdodau cyhoeddus os nad ydynt wedi cyhoeddi'r cynlluniau a'r adroddiadau hyn fel a ddisgwylir **paragraffau 1.35 i 1.40**).
- A3 Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiadau sy'n darparu golwg gyffredinol ar gamau gweithredu awdurdodau cyhoeddus, eu cynnydd a'r modd y maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd (gweler **paragraffau 1.35 i 1.40**). Dylai wneud hynny bob tair blynedd yn unol â'r cylch adrodd a ddiffinnir gan y Ddeddf.

## Argymhellion

---

### Gwella cynllunio ac adrodd

- A4 Cyn y terfyn amser nesaf ar gyfer adrodd ar ddiwedd 2025, dylai Llywodraeth Cymru arwain trwy esiampl trwy gyhoeddi cynllun ac adroddiad bioamrywiaeth o ansawdd da sy'n ymwneud yn benodol â'i chynlluniau gweithredu hi ei hun (gweler **paragraffau 1.6 i 1.8**).
- A5 Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau cyhoeddus i adolygu a diwygio canllawiau presennol a gwybodaeth ategol ynghylch y ddyletswydd (gweler **paragraffau 1.12 i 1.21**). Dylai hyn gynnwys:
- a eu hintegreiddio mewn modd di-dor â deunydd a gynhyrchir i ategu'r newidiadau arfaethedig i gyfraith amgylcheddol;
  - b sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus heb arbenigedd penodol ym maes bioamrywiaeth yn gallu eu deall;
  - c eu teilwra ar gyfer awdurdod cyhoeddus mewn gwahanol sectorau ac o wahanol fath;
  - ch sicrhau eu bod i gyd yn hygyrch mewn, neu drwy, un lle;
  - d egluro a oes grym statudol i ganllawiau; ac
  - dd addasu a rhannu ei phecyn cymorth bioamrywiaeth a chanllawiau asesu effeithiau ei hun fel adnoddau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus eraill.
- A6 Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu templed cynllunio ar gyfer awdurdodau cyhoeddus. Dylai sicrhau bod hwn yn addasadwy i'r rhai â chynlluniau sy'n bodoli ar eu pen eu hunain a'r rhai sydd wedi integreiddio cynllunio ar gyfer bioamrywiaeth fel rhan o gynlluniau ehangach (gweler **paragraffau 2.6 i 2.8**).

## Argymhellion

---

- A7 Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu hyfforddiant ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, a hwnnw wedi'i dargedu at staff sy'n gyfrifol am ddatblygu cynlluniau ac adroddiadau bioamrywiaeth (gweler **paragraff 1.18**). Dylai'r hyfforddiant gwmpasu'r ddyletswydd a gofynion ychwanegol sy'n codi o'r newidiadau arfaethedig i gyfraith amgylcheddol.
- A8 I wella ansawdd a chysondeb, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n rheolaidd i ddarparu adborth ar gyfer awdurdodau cyhoeddus ar y cynlluniau a'r adroddiadau a gyflwynir ganddynt (gweler **paragraffau 1.38 i 1.40, 2.8, a 2.15**).

### Goblygiadau ariannol newidiadau i gyfraith amgylcheddol

- A9 Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n drylwyr i asesu costau ei newidiadau arfaethedig i gyfraith amgylcheddol a sicrhau bod adnoddau digonol o fewn (neu'n cael eu darparu ar gyfer) awdurdodau cyhoeddus i roi cymorth i'w rhoi ar waith yn effeithiol (gweler **paragraffau 1.32 i 1.34**).



# Rôl Llywodraeth Cymru



01

- 1.1 Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn bwrw golwg ar rôl Llywodraeth Cymru i bennu'r fframwaith cyfreithiol a pholisi a chefnogi awdurdodau cyhoeddus. Mae hefyd yn cyffwrdd ar y modd y mae Llywodraeth Cymru'n cydymffurfio â'r ddyletswydd.

### Yr hyn y gwnaethom ganolbwyntio arno:



Fe chwiliom ni am dystiolaeth o weledigaeth wedi'i diffinio'n glir, cymorth a chanllawiau effeithiol gan Lywodraeth Cymru, a gweithgarwch cadarn yn ganolog i fonitro'r modd y mae awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r ddyletswydd ac i adrodd ar hynny.

## Mae gwendidau yn y Ddeddf a'i chanllawiau'n gadael eu cwmpas a'u bwriad yn agored i gael eu dehongli ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn anghywir i dybio nad yw wedi'i chynnwys yng ngofynion cynllunio'r ddyletswydd

- 1.2 Nid yw'r Ddeddf yn rhestru'n glir pa awdurdodau cyhoeddus a gwmpesir gan y ddyletswydd. Yn lle hynny, mae'n darparu diffiniad cyffredinol o awdurdod cyhoeddus o'r fath<sup>5</sup>.
- 1.3 Nid yw canllawiau ategol yn egluro'r sefyllfa'n llawn. Mae'r canllawiau'n dweud bod yr awdurdodau cyhoeddus a gwmpesir yn cynnwys y rhai a arferai fod yn ddarostyngedig i adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, yn ogystal ag 'unrhyw awdurdodau cyhoeddus newydd a gaiff eu creu'. Fodd bynnag, nid yw Deddf 2006 yn rhestru awdurdodau cyhoeddus ychwaith.
- 1.4 Mae gan Lywodraeth Cymru restr o awdurdodau cyhoeddus y mae hi'n ystyried bod y ddyletswydd yn eu cwmpasu. Mae swyddogion yn defnyddio'r restr fel arweiniad yn hytrach nag ystyried ei fod yn ddiffiniol. Mae Llywodraeth Cymru'n credu mai awdurdodau cyhoeddus ddylai benderfynu a yw'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt hwy, er ei bod yn rhoi cyngor os gofynnir. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r mater hwn o ansicrwydd ynghylch yr awdurdodau cyhoeddus a gwmpesir gan y ddyletswydd ers i'r gwerthusiad ohoni yn 2021 godi hynny.
- 1.5 Rydym yn ymwybodol o bum corff llywodraeth ganolog o fewn cwmpas ein gwaith sydd i'w gweld fel pe baent wedi dehongli'n anghywir nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt hwy o gwbl. Gan hynny, nid ydynt wedi ceisio cydymffurfio. Nid yw pedwar o'r rhain ar y restr sydd gan Lywodraeth Cymru.

5 Adran 6(9) o'r Ddeddf.

- 1.6 Yn y cyfamser, roedd Llywodraeth Cymru'n credu nad oedd y gofynion cynllunio'n berthnasol iddi hi nes i ni egluro ein dehongliad gwahanol ni. Mae bellach yn derbyn nad yw wedi cydymffurfio am nad yw wedi cyhoeddi cynllun sy'n ymwneud yn benodol â'i champau gweithredu hi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amryw gynlluniau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, megis y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (gweler **paragraff 2**), ond nid yw'r rhain yn ymwneud yn benodol â hi.
- 1.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu 'cynllun ar dudalen' fel templed i helpu ei hadrannau i gynllunio sut i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn eu meysydd hwy (gweler hefyd **paragraff 1.24**). Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi mandadu'r templed ac nid yw pob adran wedi ei gwblhau. Yn awr mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu datblygu cynllun sy'n cydymffurfio â'r ddyletswydd er nad yw wedi dweud pryd y bydd yn gwneud hynny.
- 1.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad<sup>6</sup> sydd, yn ei thyb hi, yn ateb y gofynion adrodd. Mae'r adroddiad yn nodi'r hyn sydd, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn enghreifftiau cynrychiolaidd o gamau gweithredu ehangach fel rhan o bolisiau a rhaglenni. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn dilyn strwythur y templed y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddarparu ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill ac fe geir bylchau yn yr hyn a gwmpesir. Er enghraifft, nid yw'n cwmpasu arferion rheoli tir ac adeiladau na chaffael Llywodraeth Cymru.
- 1.9 Maes arall lle ceir ansicrwydd posibl yw pa un a yw, a sut y mae, Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio ei chanllawiau wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus 'roi sylw i' wybodaeth a chanllawiau penodol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn darparu hyblygrwydd o ystyried yr amrywiad eang yn swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r term yn agored i gael ei ddehongli ac nid yw canllawiau ategol yn egluro'r disgwyliadau penodol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus.

---

6 Llywodraeth Cymru, Dyletswydd adran 6 bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau: adroddiad cryno 2022, Rhagfyr 2022

## Fe wnaeth y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus sylwadau cadarnhaol am agweddau ar arweinyddiaeth strategol genedlaethol ond ceir meysydd i'w gwella yng nghymorth a chanllawiau Llywodraeth Cymru

### Arweinyddiaeth strategol

- 1.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu strategaeth a chynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth trwy'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Fe gyflwynodd y Ddeddf fframwaith polisi a chyflawni ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy hefyd. Mae'r fframwaith yn cynnwys Polisi Adnoddau Naturiol<sup>7</sup>, Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol<sup>8</sup> a Datganiadau Ardal (gweler **Arddangosyn 2**).

### Arddangosyn 2: y fframwaith polisi a chyflawni ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016



#### Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Mae a wnelo Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy â defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a ddarperir ganddynt, sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol, ac sy'n cyfrannu at saith nod llesiant Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlinellu naw egwyddor ategol ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.



#### Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (SoNaRR)

Adroddiad yw SoNaRR y mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ei lunio sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, ei asesiad gan ystyried i ba raddau y mae Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn cael ei cyflawni a bioamrywiaeth yn gyffredinol. Rhaid iddo wneud sylwadau am y prif dueddiadau a ffactorau sy'n effeithio, neu'n debygol o effeithio, ar sefyllfa adnoddau naturiol; a dylai ddisgrifio unrhyw agweddau lle nad oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o wybodaeth i wneud asesiad.

7 Llywodraeth Cymru, [Polisi Adnoddau Naturiol](#), Awst 2017

8 Cyfoeth Naturiol Cymru, [Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\) Cymru 2020](#), Rhagfyr 2020

---

## Polisi Adnoddau Naturiol (NRP)



Yn y Polisi Adnoddau Naturiol, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi ei pholisïau cyffredinol a phenodol i gyfrannu at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Rhaid iddi hefyd nodi'r blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd allweddol ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ei thyb hi, gan gynnwys yr hyn y dylid ei wneud mewn perthynas â newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

Gall Llywodraeth Cymru gynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol yn ei thyb hi i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a rhaid iddi gymryd pob cam rhesymol i roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith gan annog eraill i gymryd camau o'r fath. Rhaid i'r Polisi Adnoddau Naturiol ystyried yr adroddiad SoNaRR diweddaraf.

---

## Datganiadau Ardal



Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi'r datganiadau hyn i hwyluso'r broses o roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith. Rhaid i bob datganiad gyfeirio at yr adnoddau naturiol yn yr ardal a'r manteision a ddarperir ganddynt. Rhaid iddynt hefyd nodi'r blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnig Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i fynd i'r afael â hwy, a'r cyrff cyhoeddus a allai gynorthwyo i wneud hynny yn ei dyb ef. Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau bod pob rhan o Gymru wedi cael ei chynnwys mewn o leiaf un datganiad. Rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i roi datganiad ardal ar waith ac annog eraill i gymryd camau o'r fath hefyd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyhoeddi datganiadau ardal ar ei wefan. Maent yn ymwneud â De Ddwyrain Cymru, Canol De Cymru, De Orllewin Cymru, Canolbarth Cymru, Gogledd Ddwyrain Cymru, Gogledd Orllewin Cymru, a'r Ardal Forol.

---

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru

Nodyn: Mae'r Ddeddf yn nodi'r gofynion llawn ar gyfer yr uchod i gyd, gan gynnwys y cyfnodau sy'n berthnasol i gyhoeddi neu adolygu rhannau o'r fframwaith.




1.11 Mae **Arddangosyn 3** yn dangos bod y mwyafrif o awdurdodau cyhoeddus wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am agweddau ar arweinyddiaeth strategol genedlaethol yn ein Galwad am Dystiolaeth. O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol:

- roedd 31 allan o 40 (78%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ganddynt ddealltwriaeth eglur am gyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau;
- roedd 28 allan o 40 (70%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ganddynt ddealltwriaeth eglur am yr amcanion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u pennu fel rhan o'i chyfeiriad strategol; ac
- roedd 23 allan o 40 (58%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid ehangach ac yn eu cynnwys yn effeithiol o ran ei chyfeiriad strategol.

### Arddangosyn 3: barn awdurdodau cyhoeddus ynglŷn ag agweddau ar arweinyddiaeth strategol Llywodraeth Cymru

Ymatebion i'r datganiad, 'Fel sefydliad mae gennym ddealltwriaeth eglur am gyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'.



Ymatebion i'r datganiad, 'Fel sefydliad mae gennym ddealltwriaeth eglur am yr amcanion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u pennu fel rhan o'i chyfeiriad strategol'.

Cytuno'n gryf  2


Cytuno  26

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno  9

Anghytuno  3

Anghytuno'n gryf

Ymatebion i'r datganiad, 'Fel sefydliad rydym yn teimlo bod Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid ehangach ac yn eu cynnwys yn effeithiol o ran ei chyfeiriad strategol'.

Cytuno'n gryf  1

Cytuno  22

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno  13

Anghytuno  4

Anghytuno'n gryf

Ffynhonnell: Galwad Archwilio Cymru am Dystiolaeth

Nodyn: Ni wnaeth 13 o awdurdodau cyhoeddus ymateb i'r cwestiynau hyn (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) neu ni wnaethant gyflwyno ymateb o gwbl.

### Cymorth a chanllawiau

- 1.12 Mae gan Lywodraeth Cymru amryw ddarnau o ganllawiau a gwybodaeth ategol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus. Er bod y Ddeddf wedi cael ei chyflwyno yn 2016, ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau cyffredinol cyntaf tan 2018. Fe gyhoeddodd ei chanllawiau adrodd manwl cyntaf ar 8 Tachwedd 2019. Nid oedd hyn yn gadael rhyw lawer o amser i awdurdodau cyhoeddus eu hystyried cyn y terfyn amser ar gyfer adrodd, sef diwedd 2019.
- 1.13 Mae peth gwybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae gwybodaeth arall ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru<sup>9</sup>. Fe argymhellodd gwerthusiad 2021 y dylai canllawiau Llywodraeth Cymru ar y ddyletswydd gael eu gwella mewn nifer o ffyrdd. I geisio egluro ble i ddod o hyd iddynt, fe ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at awdurdodau cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2022 gyda thaflen adnoddau a oedd yn cynnwys dolenni i'r holl ganllawiau.
- 1.14 Mae gwendidau gyda chanllawiau'n dal i fodoli. Dim ond 15 allan o'r 40 (38%) o awdurdodau cyhoeddus a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol yn ein Galwad am Dystiolaeth oedd yn cytuno bod Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth a chanllawiau effeithiol (gweler **Arddangosyn 4**).

### Arddangosyn 4: barn awdurdodau cyhoeddus ynglŷn â chymorth a chanllawiau Llywodraeth Cymru

Ymatebion i'r datganiad, 'Fel sefydliad rydym yn teimlo bod Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth ac arweiniad effeithiol i awdurdodau cyhoeddus i'w helpu i gydymffurfio â'r ddyletswydd'.

Cytuno'n gryf

Cytuno  15

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno  14

Anghytuno  11

Anghytuno'n gryf

Ffynhonnell: Galwad Archwilio Cymru am Dystiolaeth

Nodyn: Ni wnaeth 13 o awdurdodau cyhoeddus ymateb i'r cwestiwn hwn (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) neu ni wnaethant gyflwyno ymateb o gwbl.

9 Rhwydwaith o sefydliadau ac unigolion sy'n ymrwymedig i fioamrywiaeth yw Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Gweler hefyd **paragraff 1.17** ac **Arddangosyn 5**.

- 1.15 Fe nododd awdurdodau cyhoeddus rai pryderon penodol ynglŷn â'r fframwaith polisi, y canllawiau, a'r wybodaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:
- mae'r canllawiau wedi'u cynnwys mewn amryw ddogfennau mewn gwahanol fformatau sydd, yn rhannol, yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Gall hyn achosi dryswch wrth geisio deall pa un yw'r ffynhonnell wybodaeth swyddogol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus.
  - mae rhai deunyddiau pwysig wedi dyddio. Er enghraifft, mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn dyddio o 2017 ac mae Adran 7 o'r Ddeddf yn cynnwys dwy restr o gynefinoedd ac organebau pwysig y dylid eu defnyddio i oleuo cynlluniau bioamrywiaeth, ond mae'r rhain yn dyddio o 2006.
  - mae rhai awdurdodau cyhoeddus o'r farn bod SoNaRR a'r Datganiadau Ardal (gweler **Arddangosyn 2**) yn rhy lefel-uchel ac eang, ac nad ydynt yn adlewyrchu amgylchiadau lleol o anghenraid.
  - clywsom hefyd alwadau am ganllawiau wedi'u teilwra ymhellach i adlewyrchu gwahaniaethau rhwng awdurdodau cyhoeddus o wahanol faint, swyddogaethau a pherchnogaeth tir. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhai camau gweithredu blaenorol yn hynny o beth<sup>10</sup>.
  - gall awdurdodau cyhoeddus heb staff arbenigol pwrpasol gael gwybodaeth fel SoNaRR a'r Datganiadau Ardal yn anodd i'w deall a'u cymhwyso.
- 1.16 Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth i awdurdodau cyhoeddus trwy waith Isadran y Môr a Bioamrywiaeth. Mae'r isadran yn cynnwys tîm bioamrywiaeth sy'n goruchwyllo gwaith i gyflawni'r ddyletswydd adran 6 a'i rhoi ar waith. Mae gan y tîm bioamrywiaeth bwynt cyswllt sydd wedi'i neilltuo i roi cymorth a chanllawiau penodol ar y ddyletswydd.
- 1.17 Gall awdurdodau cyhoeddus gael mynediad at gymorth ychwanegol trwy Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru hefyd. Mae'r bartneriaeth yn rhoi cymorth bioamrywiaeth trwy ddau swyddog amser llawn a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a letyir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (gweler **Arddangosyn 5**).
- 1.18 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal amryw gynadleddau a gweithdai ac wedi rhoi cyflwyniadau i godi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd. Fodd bynnag, nid yw wedi darparu hyfforddiant ffurfiol ar gydymffurfio â'r ddyletswydd na dehongli'r canllawiau<sup>11</sup>.

---

10 Mewn ymateb i argymhelliad yng ngwerthusiad 2021, fe nododd Llywodraeth Cymru restr o gamau gweithredu cynrychiolaidd i'w cymryd, ac enghreifftiau o arfer da, ar gyfer sefydliadau â gwahanol gyfrifoldeb rheoli tir. Fe wnaeth hyn trwy ddiweddariad i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

11 Roedd gwerthusiad 2021 wedi argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cynnal gweminar tuag at ddiwedd 2021 neu yn gynnar yn 2022 i hyrwyddo'r ddyletswydd a lansio canllawiau newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhestr ar ein cyfer o gyflwyniadau a roddodd am y ddyletswydd ac fe gyhoeddodd gyflwyniad rhagarweiniol yn 2022. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhan-ariannu'r elusen Cynnal Cymru i gynnig hyfforddiant bioamrywiaeth ehangach o'r enw Naturewise.

- 1.19 Mae Llywodraeth Cymru'n cynllunio canllawiau newydd i ategu ei gynlluniau ar gyfer newidiadau i gyfraith amgylcheddol. Yn ogystal â hyn, bydd elfennau allweddol o'r fframwaith presennol yn cael eu diweddarau gan gynnwys y Polisi Adnoddau Naturiol, SoNaRR, Datganiadau Ardal, a'r rhestrau Adran 7.
- 1.20 Bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei newidiadau arfaethedig yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol â'r fframwaith presennol ar gyfer y ddyletswydd. Fel arall gallai hyn greu dryswch pellach i awdurdodau cyhoeddus. Yn fwy cyffredinol, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i ddiweddarau a gwella canllawiau presennol a gwybodaeth ategol.
- 1.21 Fe argymhellodd gwerthusiad 2021 hefyd y dylai Llywodraeth Cymru wella'r manylion cyswllt sydd ganddi ar gyfer awdurdodau cyhoeddus. Fe argymhellodd dargedu cyfathrebiadau at uwch aelodau o staff, yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud yn weithredol â'r ddyletswydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfathrebu nifer o weithiau trwy llythyrau a negeseuon e-bost Gweinidogol gydag uwch swyddogion mewn awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae swyddogion y Llywodraeth yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd diweddarau eu rhestr gyswllt yn rheolaidd oherwydd trosiant staff o fewn awdurdodau cyhoeddus.

### **Ceir tystiolaeth bod y dull strategol o ymdrin â bioamrywiaeth yn cael ei integreiddio i ryw raddau â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru ond bu llawer llai o ffocws cenedlaethol ar fioamrywiaeth nag ar ddatgarboneiddio**

- 1.22 Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn gwreiddio ei hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wna. Mae ei dull Asesiad Effaith Integredig ar gyfer datblygu polisi'n cynnwys asesiad o fioamrywiaeth. Mae'r cwestiynau ynglŷn â gwreiddio bioamrywiaeth yn darparu awgrymiadau ac arweiniad defnyddiol.
- 1.23 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu pecyn cymorth mewnol ar gyfer y rhai sy'n datblygu polisi. Ynghyd â'r asesiad effaith, mae'r rhain yn darparu fframwaith i lunwyr polisi a rheolwyr rhaglenni asesu sut y gallant gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnheredd ecosystemau. Gyda newidiadau bychain, yn ein barn ni gallai'r ddau fod yn adnodd defnyddiol i awdurdodau cyhoeddus eraill.
- 1.24 Fe sefydlodd Llywodraeth Cymru dasglu bioamrywiaeth mewnol yn 2020 i wella'r modd y mae bioamrywiaeth yn cael ei hintegreiddio fel rhan o ddatblygu polisi, caffael cyhoeddus a gweithgarwch rheoli ystadau ehangach. Mae'r tasglu'n cynnwys uwch aelodau o staff ar draws y sefydliad. Mae'n cefnogi cyrsiau hyfforddi mewnol ac yn darparu cyllid tuag atynt. Mae allbynnau'r tasglu'n cynnwys y pecyn cymorth a grybwyllwyd uchod a'i dempled ar ffurf 'cynllun ar dudalen' (gweler **paragraff 1.7**).

- 1.25 Mae enghreifftiau o Lywodraeth Cymru'n integreiddio uchelgeisiau ar gyfer bioamrywiaeth a natur â pholisïau ehangach yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru<sup>12</sup>. Mae hyn yn cynnwys canllawiau manwl ar sut y dylai awdurdodau cynllunio integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth fel rhan o brosesau cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi cynllun gweithredu bioamrywiaeth penodol mewn perthynas â'r rhwydwaith ffyrdd strategol<sup>13</sup>.
- 1.26 Ymhlith awdurdodau cyhoeddus a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol yn ein Galwad am Dystiolaeth, roedd 22 allan o 39 (56%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad, 'Fel sefydliad rydym yn deall sut y mae dull strategol Llywodraeth Cymru o ymdrin â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau wedi'i integreiddio â'i huchelgeisiau polisi allweddol eraill'. O'r lleill nid oedd 13 (33%) yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd pedwar (10%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.
- 1.27 Caiff y prif faterion a gododd awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas ag integreiddio polisi eu crynhoi isod:
- siaradodd rhai awdurdodau cyhoeddus am bolisïau sy'n cystadlu â'i gilydd. Er enghraifft, fe godon nhw bryderon y gallai ffocws Llywodraeth Cymru ar blannu coed trwy gynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth mewn amryw ffyrdd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod cyfleoedd i blannu coed ar ffermydd yng Nghymru sydd o fudd i ffermwyr, natur, a'r amgylchedd. Mae'r gofyniad yn y cynllun i fod â gorchudd coed o 10% wedi cael ei dynnu allan i sicrhau bod ffermwyr yn gallu gwneud penderfyniadau priodol. Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd yn parhau i gefnogi gwaith plannu priodol wrth iddi gwblhau'r cynllun.
  - roedd pryder arall a godwyd yn ymwneud â'r datgysylltiad posibl rhwng blaenoriaethau economaidd a'r dull strategol o ymdrin â bioamrywiaeth, am bod systemau economaidd sy'n seiliedig ar dwf a defnyddio adnoddau naturiol yn gallu effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth.
  - dywedodd rhai awdurdodau cyhoeddus nad yw'r argyfwng natur yn denu'r un lefel o sylw strategol ag argyfwng yr hinsawdd, ar lefel genedlaethol. Mae hwn yn fater a gododd yn ystod ein cyfweiliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill hefyd. Ac fe wnaeth rhai cyrff iechyd sylwadau am ddiffyg eglurder o ran sut y mae'r ddyletswydd yn cysylltu â dull strategol GIG Cymru o fynd ar drywydd datgarboneiddio.

---

12 Llywodraeth Cymru, [Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12](#), Chwefror 2024

13 Llywodraeth Cymru, [Llwybr Newydd i Natur, Cynllun Gweithredu Adfer Natur Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru](#), Hydref 2023

## Er bod Llywodraeth Cymru'n darparu amryw ffrydiau ariannu, dywedodd awdurdodau cyhoeddus wrthym am rwystrau ariannol a rhwystrau o ran adnoddau i gynnal a gwella bioamrywiaeth

- 1.28 Nid yw Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid uniongyrchol i awdurdodau cyhoeddus yn benodol at ddiben rhoi'r ddyletswydd ar waith am ei bod yn disgwyl i awdurdodau cyhoeddus integreiddio'r gofynion fel rhan o'u swyddogaethau presennol. Fodd bynnag, mae ganddi amryw ffrydiau ariannu sy'n ategu camau gweithredu ehangach ar fioamrywiaeth ac sydd, gan hynny, yn cyfrannu at gydymffurfio â'r ddyletswydd. Nid yw Llywodraeth Cymru'n gallu meintoli cyfanswm ei buddsoddiad mewn bioamrywiaeth o ystyried ehangder y ffrydiau ariannu hyn.
- 1.29 Mae **Arddangosyn 5** yn nodi rhai o'r prif ddyraniadau sy'n fwy uniongyrchol gysylltiedig â bioamrywiaeth. Y mwyaf sylweddol o'r enghreifftiau hyn yw'r Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a'r rhaglen Rhwydweithiau Natur a'r Gronfa Rhwydweithiau Natur.

### Arddangosyn 5: enghreifftiau o ffrydiau ariannu Llywodraeth Cymru sy'n ategu camau gweithredu ar fioamrywiaeth yng Nghymru

Ffrwd ariannu	Manylion
<u>Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur</u>	<p>Dyrannodd Llywodraeth Cymru <b>£66 miliwn</b> i'r rhaglen hon rhwng 2021-22 a 2024-25 i gyflawni prosiectau lleoedd lleol ar gyfer natur trwy bartneriaethau natur lleol.</p> <p>Mae hyn yn rhan o raglen a ddechreuodd yn 2020, gan amcanu at greu 'natur ar garreg eich drws'. Mae'r rhaglen yn cynnwys pum cynllun a gyflawnir gan sefydliadau eraill sydd, gyda'i gilydd, yn amcanu at greu ardaloedd sy'n cefnogi natur o fewn cymunedau, hybu mwy o werthfawrogiad o natur a mwy o werth i natur, creu mwy o fannau gwyrdd, a chefnogi amcanion bioamrywiaeth ehangach.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu swydd o fewn Un Llais Cymru i gynorthwyo cynghorau tref a chymuned i ddatblygu a chyflawni prosiectau lleoedd lleol ar gyfer natur.</p>



---

**Ffrwd ariannu**      **Manylion**

---

**Rhaglen  
Rhwydweithiau  
Natur a'r Gronfa  
Rhwydweithiau  
Natur**

Dyrannodd Llywodraeth Cymru **£54 miliwn** i'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur (NNP) a'r Gronfa Rhwydweithiau Natur (NNF) rhwng 2021-22 a 2024-25.

Dechreuodd y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn 2021-22 ac fe'i gweinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Trwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, gall unigolion neu sefydliadau ymgeisio am grantiau i ariannu prosiectau sy'n amcanu at wella cyflwr a chydnerthedd tir a safleoedd morol a warchodir.

Dechreuodd y Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn 2022-23, gan ogynnwys y Gronfa Rhwydweithiau Natur. Nod y Rhaglen Rhwydweithiau Natur yw gwella amodau, cysylltedd a chydnerthedd y rhwydwaith safleoedd a warchodir.

Ochr yn ochr â'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, mae'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn cynnwys dyraniad i Cyfoeth Naturiol Cymru. Trwy'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio gyda thirfeddianwyr a rhanddeiliaid eraill i roi mesurau rheoli ar waith sy'n mynd i'r afael ag amcanion y rhaglen.

---

**Partneriaeth  
Natur Lleol  
Cymru**

Fel rhan o'r dyraniad uchod mewn perthynas â'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, dyrannodd Llywodraeth Cymru **£3.3 miliwn** i rychwantu'r cyfnod o 2022-23 i 2024-25, ar gyfer gwaith y Partneriaethau Natur Lleol i roi cymorth i roi'r ddyletswydd ac argymhellion yr archwiliad dwfn (gweler **paragraff 1.43**) ar waith.

Nod y bartneriaeth hon yw adeiladu rhwydwaith adfer natur ledled Cymru. Fe'i cydlynir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys yr holl awdurdodau lleol ac awdurdodau'r holl barciau cenedlaethol yng Nghymru, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, CGGC a'r Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol (gweler isod).

---



## Ffrwd ariannu    Manylion

---

### Tasglu Bioamrywiaeth



Mae Llywodraeth Cymru'n darparu **£500,000** mewn cyllid blynyddol ar gyfer y tasglu mewnol hwn (gweler **paragraff 1.24**).

Yn 2024-25, mae'r tasglu'n canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth well ar draws Llywodraeth Cymru am her bioamrywiaeth a'r potensial i gyflawni effaith.

Mae enghreifftiau o weithgareddau a ariannwyd yn cynnwys datblygu hyfforddiant, cefnogi datblygiad targedau newydd, gweithredu argymhellion yr archwiliad dwfn, a chefnogi myfyrwyr ar leoliad.

---

### Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol



Darparodd Llywodraeth Cymru **£107,000** yn 2022-23 a **£119,000** yn 2023-24 a 2024-25 ar gyfer Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol. Mae'r rhain yn casglu adnoddau sy'n ymwneud â data bywyd gwylt ac yn darparu mynediad atynt.

---

### Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru



Dyrannodd Llywodraeth Cymru **£100,000** i'r bartneriaeth yn 2022-23 a 2023-24, a **£115,000** yn 2024-25.

Mae'r cyllid yn cyfrannu at dîm cymorth y bartneriaeth sy'n rhoi cyngor i awdurdodau cyhoeddus ynghylch y ddyletswydd, cynorthwyo i hwyluso polisi bioamrywiaeth cenedlaethol, yn rhoi cymorth i Bartneriaethau Natur Lleol, yn hyrwyddo arfer da, ac yn cydlynu cynhadledd bioamrywiaeth genedlaethol.

---

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru o wybodaeth Llywodraeth Cymru

Nodyn: Dechreuodd y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn 2021-22. Fe lansiodd Llywodraeth Cymru'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn 2022-23. Tybiodd yn ddiweddarach fod y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn fecanwaith addas i helpu i gyrraedd nodau'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Felly, ers 2022-23, mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn cael ei thrin fel rhan o'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur ehangach, er ei bod yn cael dyraniad cyllid ar wahân.

- 1.30 Dywedodd awdurdodau cyhoeddus wrthym am amryw faterion ariannol ac o ran adnoddau a oedd yn effeithio ar eu camau gweithredu mewn perthynas â bioamrywiaeth. Rydym wedi adrodd yn flaenorol ar bryderon tebyg mewn cyd-destunau eraill. I grynhoi:
- er bod rhai'n croesawu'r cyllid a oedd ar gael, dywedodd eraill nad oedd y cyllid yn ddigon i gyflawni popeth a oedd yn ofynnol. Gan hynny, roeddent yn gorfod dod o hyd i gyllid o gyllidebau presennol a gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â blaenoriaethau perthynol.
  - dywedodd rhai fod arnynt angen mwy o gysondeb o ran y cyllid, gyda chyllid byrdymor yn cyfrannu at ddibyniaeth ar swyddi dros dro. Er enghraifft, clywsom fod cyllid trwy'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (gweler **Arddangosyn 5**) wedi bod o gymorth, ond bod ei ddyfodol hirdymor yn ansicr. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cadarnhau dyraniad o £16.4 miliwn ar gyfer y cynllun yn 2025-26 ac mae'n gweithio ar y dybiaeth y bydd dyraniad tebyg yn 2026-27.
  - dywedodd rhai nad yw cyllid munud olaf ar gyfer prosiectau cyfalaf o gymorth am bod angen amser paratoi ar gyfer cynlluniau. Fe wnaethant hefyd amlygu nad yw cyllid refeniw ychwanegol yn cael ei ddarparu i gyd-fynd â chynlluniau cyfalaf penodol. Er enghraifft, nid yw cyllid ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau seilwaith, megis plannu coed, yn cynnwys arian ar gyfer cynnal a chadw hirdymor.
- 1.31 Dim ond 17 allan o'r 40 (43%) o awdurdodau cyhoeddus a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol yn ein Galwad am Dystiolaeth oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae ein sefydliad yn deall goblygiadau cydymffurfio â'r ddyletswydd o ran costau'. O'r lleill, nid oedd 13 (33%) yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 10 (25%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.
- 1.32 Mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i gyfraith amgylcheddol, amlygodd rhanddeiliaid yr angen am adnoddau digonol i roi'r newidiadau a oedd yn ofynnol ar waith. Yn ein Galwad ni am Dystiolaeth wedyn, mynegodd rhai awdurdodau cyhoeddus bryderon hefyd ynghylch cyfyngiadau o ran capasiti yn Cyfoeth Naturiol Cymru, ac y byddai'r cynigion newydd yn cynyddu'r galwadau arno.
- 1.33 Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn archwilio argaeledd adnoddau'n drylwyr i ategu'r newidiadau arfaethedig. Mae hefyd wedi lansio ymgynghoriad ar wahân ynghylch dull newydd o ddarparu cyllid ar gyfer adferiad natur, gan amcanu at gynyddu ac arallgyfeirio'r cyllid sydd ar gael<sup>14</sup>.

- 1.34 Byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru nodi costau amcangyfrifedig fel rhan o'i Hasesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, fe wnaeth ein hadroddiad ar ddeddfu gwell yn 2020<sup>15</sup> amlygu pryderon ynghylch sut y mae rhai asesiadau blaenorol ar gyfer deddfau eraill wedi tanamcangyfrif costau rhoi deddfwriaeth ar waith.

### **Nid yw Llywodraeth Cymru'n dwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif trwy fynd ati'n rheolaidd i fonitro neu orfodi eu cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd**

- 1.35 Fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o roi'r ddyletswydd ar waith yn 2021. Roedd yr adroddiad gwerthuso'n datgan mai 'prif effaith y ddyletswydd fu cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am fioamrywiaeth ar draws awdurdodau cyhoeddus'. Roedd yn nodi bod y ddyletswydd hefyd 'wedi cyfrannu'n gadarnhaol, ond i raddau llai, at wreiddio bioamrywiaeth yn fwy ar draws prosesau penderfynu a darparu gwasanaethau awdurdodau cyhoeddus'.
- 1.36 Canfu'r gwerthusiad fod angen gwaith pellach i wella'r modd y rhoddir y ddyletswydd ar waith ac y cydymffurfir â hi. Fe wnaeth wyth argymhelliad ar gyfer gwella. Nid ymatebodd Llywodraeth Cymru'n ffurfiol ac ni chyhoeddodd yr adroddiad gwerthuso.
- 1.37 Fel a adlewyrchir mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, mae nifer o faterion a esgorodd ar yr argymhellion yn dal heb eu datrys. Er enghraifft, er bod y canllawiau cenedlaethol yn dweud y dylai awdurdodau cyhoeddus anfon eu cynlluniau a'u hadroddiadau at Lywodraeth Cymru, nid yw hyn yn ofynnol yn ôl y Ddeddf ei hun. Yn 2022, fe ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at awdurdodau cyhoeddus i atgyfnerthu'r angen i gyflwyno adroddiadau. Mae wedi cadarnhau nad ydynt i gyd yn gwneud hynny ac nad yw'n mynd ar ôl hyn<sup>16</sup>.
- 1.38 Hefyd, nid yw Llywodraeth Cymru'n mynd ati'n rheolaidd i adolygu na gwneud sylwadau ar ansawdd y cynlluniau a'r adroddiadau y mae'n ymwybodol ohonynt. Nid yw'n ceisio dwyn ynghyd unrhyw ddadansoddiad cyffredinol ohonynt ychwaith. Mae swyddogion y Llywodraeth yn darparu adborth ad-hoc, os gofynnir, i staff mewn awdurdodau cyhoeddus sydd wedi drafftio'r cynlluniau a'r adroddiadau.
- 1.39 Nid oes unrhyw ganlyniadau i awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Dywedodd rhai awdurdodau cyhoeddus wrthym y byddai rhoi'r ddyletswydd ar waith yn cael mwy o flaenoriaeth pe bai canlyniadau am beidio â gwneud hynny. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried camau gweithredu eraill, gan gynnwys dirwyon, fe benderfynodd y byddai hyn yn wrthgynhyrchiol.

---

15 Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Deddfu gwell: yr her o roi deddfwriaeth ar waith](#), Medi 2020

16 Mae gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru'n rhestr adroddiadau y gwneir Llywodraeth Cymru'n ymwybodol ohonynt neu a gyflwynwyd iddi. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr yn un swyddogol.

1.40 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai cefnogi awdurdodau cyhoeddus a'u hannog i weithredu yw ei rôl hi. Yn y dyfodol, gallai'r corff llywodraethu amgylcheddol newydd y mae Llywodraeth Cymru'n ei gynnig (gweler **paragraff 1.45**) fod â rôl allweddol o ran monitro cynnydd a dwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif.

### **Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau ar gyfer bioamrywiaeth eto ac ar hyn o bryd nid yw'n gallu asesu effaith gyffredinol y ddyletswydd ar ddirywiad bioamrywiaeth**

- 1.41 Mae cynnal a gwella bioamrywiaeth yn gymhleth ac yn gynhenid anodd i'w fesur. Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru'n gallu asesu effaith gyffredinol y ddyletswydd ar ddirywiad bioamrywiaeth mewn modd cadarn.
- 1.42 Nid oes unrhyw dargedau penodol, domestig ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru. Yn 2021, galwodd adroddiad gan randdeiliaid amgylcheddol ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol, domestig<sup>17</sup>. Roedd yr adroddiad yn dweud bod y fframwaith presennol wedi methu â lleihau colled bioamrywiaeth dros y degawd blaenorol.
- 1.43 Er nad oes unrhyw dargedau domestig ar hyn o bryd, defnyddiodd Llywodraeth Cymru darged rhyngwladol ar gyfer adolygiad 'dwfn' yn 2022<sup>18</sup> i ystyried sut y gallai camau gweithredu i gefnogi adferiad natur gael eu cyflymu. Dewisodd grŵp yr adolygiad y 'targed 30x30' fel ei ffocws strategol. Mae'r targed yn rhan o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y cytunwyd arno yn COP15<sup>19</sup>. Mae'n cyfeirio at warchod o leiaf 30% o dir, dŵr croyw a môr a'i reoli'n effeithiol ar gyfer natur erbyn 2030.
- 1.44 Nid ydym wedi ystyried y targed 30x30. Fodd bynnag, dywedodd rhai awdurdodau cyhoeddus wrthym fod diffyg eglurder ac arweiniad o ran sut y dylid mesur neu gyrraedd y targed, ac o ran y camau gweithredu gofynnol<sup>20</sup>. Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i flaenoriaethu cyrraedd y targed 30x30. Mae'n cydnabod bod meysydd lle gellid gwneud mwy o gynnydd.

---

17 RSPB Cymru a WWF Cymru, gyda chefnogaeth Cyswllt Amgylchedd Cymru, [Rhoi Cymru ar Lwybr i Adfer Natur: yr achos dros dargedau adfer natur yng Nghymru](#), Mehefin 2021

18 Llywodraeth Cymru, [Plymio dwfn bioamrywiaeth: argymhellion](#), Hydref 2022

19 Cynhadledd y Partion i'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth yw [COP15](#).

20 Darparodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ddiweddiariad ar yr ymateb i'r archwiliad dwfn mewn [datganiad ysgrifenedig](#) ym mis Gorffennaf 2024. Roedd yr ymateb yn cyfeirio at weithgor arbenigol sydd wedi cael gorchwyl i ddatblygu fframweithiau monitro a thystiolaeth.

1.45 Gallai cynigion Llywodraeth Cymru i newid cyfraith amgylcheddol:

- gyflwyno targedau a dyletswyddau statudol i warchod ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru, gan gynnwys gofynion i fonitro, adrodd a chraffu; a
- sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol, y bydd ei gylch gwaith yn cynnwys goruchwyllo'r modd y mae awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r ddyletswydd ac yn cyrraedd y targedau bioamrywiaeth newydd.

1.46 Pe baent yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, mae gan y cynigion hyn y potensial i gryfhau monitro a gorfodi. Byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gydweithio gyda rhanddeiliaid ehangach i sicrhau bod ei thargedau a'i nodau'n realistig, yn gyraeddadwy, ac yn cyd-fynd â gofynion eraill.



## **Sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn ymateb**

---

02

- 2.1 Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn ystyried sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn ymateb i'r ddyletswydd a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu i wneud hynny. Mae ein dadansoddiad yn yr adran hon weithiau'n ystyried pob un o'r 53 o awdurdodau cyhoeddus a oedd o fewn cwmpas ein gwaith. Ar adegau eraill mae'n seiliedig ar is-set o awdurdodau cyhoeddus yn seiliedig ar eu trefniadau cynllunio ac adrodd a/neu'r rhai a ymatebodd i gwestiynau penodol yn ein Galwad am Dystiolaeth. Fel a nodir ym **mharagraff 1.5**, nid oedd pump o'r awdurdodau cyhoeddus y cysylltom ni â hwy o'r farn bod y ddyletswydd yn berthnasol iddynt hwy o gwbl.



### Yr hyn y gwnaethom ganolbwyntio arno:

Fe chwiliom ni am dystiolaeth bod awdurdodau cyhoeddus wedi paratoi a chyhoeddi cynlluniau bioamrywiaeth, wedi sefydlu trefniadau gweithredol a llywodraethu priodol i'w cyflawni, a'u bod yn monitro cynnydd ac yn adrodd arno.

## Nid yw bron hanner yr awdurdodau cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r gofyniad i baratoi a chyhoeddi cynllun bioamrywiaeth ac mae dulliau o gynllunio'n amrywio'n eang

- 2.2 Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun bioamrywiaeth. Dylai'r cynllun hefyd nodi'r hyn y mae'r awdurdod cyhoeddus yn cynnig ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus adolygu'r cynllun yng ngoleuni pob adroddiad y maent yn ei gyhoeddi, ac y gall awdurdodau cyhoeddus ddiwygio'r cynllun unrhyw bryd.
- 2.3 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n dweud y dylai'r cynllun nodi'r camau y mae awdurdod cyhoeddus yn bwriadu eu cymryd ar draws pob un o'i swyddogaethau. Dylai'r camau hyn, hyd y bo'n bosibl, gael eu harwain gan chwe amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur<sup>21</sup>. Mae'r canllawiau'n darparu enghreifftiau o gamau gweithredu y gallai awdurdodau cyhoeddus gynllunio i'w cymryd ond mae'r rhain yn gyfyngedig.

21 Yr amcanion yw: 1 – ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel; 2 – diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well; 3 – gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnherth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd; 4 – mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd; 5 – gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro; 6 – rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.


2.4 Mae **Arddangosyn 6** yn nodi ein dealltwriaeth ni am statws cynlluniau awdurdodau cyhoeddus. Canfuom fod 13 allan o 53 (25%) heb baratoi cynllun<sup>22</sup>. O'r 40 (75%) a oedd â rhyw fath o gynllun<sup>23</sup>, dim ond 27 oedd wedi ei gyhoeddi. Felly, nid oedd 26 allan o 53 (49%) o awdurdodau cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r gofyniad i baratoi a hefyd i gyhoeddi cynllun. Roedd cydymffurfiaeth yn uwch mewn llywodraeth leol nag mewn sectorau eraill.

### Arddangosyn 6: cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynllun bioamrywiaeth

**53** Awdurdod cyhoeddus a oedd wedi eu cynnwys yn ein cwmpas

**40** Awdurdod cyhoeddus ag unrhyw fath o gynllun

**27** Awdurdod cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi eu cynllun



Ffynhonnell: Galwad Archwilio Cymru am Dystiolaeth, a ategwyd gan waith pellach i gasglu tystiolaeth. Gweler **Atodiad 1** am ragor o fanylion.

Nodyn: Mae 20 allan o 28 (71%) o gyrff llywodraeth leol (cyngorau, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub) wedi cyhoeddi cynllun. Y ffigwr cyfatebol mewn cyrff ieuchyd oedd 4 allan o 12 (33%). Mewn llywodraeth ganolog roedd yn 3 allan o 13 (23%).

<sup>22</sup> Dynododd 3 o'r 13 o awdurdodau cyhoeddus sydd heb baratoi a chyhoeddi cynllun eu bod yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol.

<sup>23</sup> Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys cynlluniau sy'n bodoli ar eu pen eu hunain a chynlluniau bioamrywiaeth sydd wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau corfforaethol ehangach, a chynlluniau sydd wedi cael a heb gael eu cyhoeddi.



2.5 Mae **Arddangosyn 7** yn dangos, o'r 34 o awdurdodau cyhoeddus sydd â chynllun, sydd naill ai wedi cael neu heb gael ei gyhoeddi, ac a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol yn ein Galwad am Dystiolaeth, bod 21 (62%) yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau Llywodraeth Cymru'n ddefnyddiol wrth baratoi eu cynllun.

**Arddangosyn 7: ymatebion awdurdodau cyhoeddus i'r datganiad, 'Wrth baratoi ein cynllun bioamrywiaeth, mae arweiniad Llywodraeth Cymru ar gynllunio bioamrywiaeth wedi bod yn ddefnyddiol'**

Cytuno'n gryf

Cytuno  21

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno  9

Anghytuno  3

Anghytuno'n gryf  1

Ffynhonnell: Galwad Archwilio Cymru am Dystiolaeth. Gweler **Atodiad 1** am ragor o fanylion.

Nodyn: Yn y dadansoddiad hwn rydym wedi cynnwys dim ond yr awdurdodau cyhoeddus hynny sydd â chynllun bioamrywiaeth, sydd naill ai wedi cael neu heb gael ei gyhoeddi. Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus na wnaethant ymateb i'r cwestiwn perthnasol yn ein galwad am dystiolaeth neu na wnaethant gyflwyno ymateb o gwbl.

2.6 Fe ofynnem ni hefyd i awdurdodau cyhoeddus a oeddent, wrth ddatblygu eu cynlluniau bioamrywiaeth, wedi ystyried pedair ffynhonnell wybodaeth bwysig y mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol iddynt 'roi sylw' iddynt. Canfuom fel a ganlyn<sup>24</sup>:

- dywedodd 31 allan o 33 (94%) eu bod wedi defnyddio'r chwe amcan yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur;
- dywedodd 28 allan o 33 (85%) eu bod wedi defnyddio'r fersiwn diweddaraf o SoNaRR;
- dywedodd 26 allan o 33 (79%) eu bod wedi defnyddio'r rhestr Adran 7 o gynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd pennaf i Gymru; a
- dywedodd 23 allan o 33 (70%) eu bod wedi defnyddio Datganiadau Ardal perthnasol.

<sup>24</sup> Mewn perthynas â'r bwledi hyn, yn ein dadansoddiad rydym wedi cynnwys dim ond yr awdurdodau cyhoeddus hynny sydd â chynllun bioamrywiaeth, sydd naill ai wedi cael neu heb gael ei gyhoeddi. Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus na wnaethant ymateb i'r cwestiwn perthnasol yn ein galwad am dystiolaeth neu na wnaethant gyflwyno ymateb o gwbl.

- 2.7 Dywedodd awdurdodau cyhoeddus wrthym fod eu gwaith cynllunio'n cael ei gymhlethu gan y diffyg templed gan Lywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau<sup>25</sup> ar gynllunio'n aneglur mewn manau hefyd, yn enwedig wrth ystyried a ddylai cynlluniau fod yn rhai ar eu pen eu hunain. Er enghraifft, maent yn datgan mai arfer gorau yw bod cynlluniau Adran 6 yn rhan o ddogfennau cynllunio busnes neu gorfforaethol eraill. Fodd bynnag, maent yn mynd ymlaen i ddweud, er efallai nad yw'n angenrheidiol paratoi cynllun ar ei ben ei hun, y gall fod yn ddefnyddiol yn weithredol.
- 2.8 Canfuom fod awdurdodau cyhoeddus wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau o gynllunio, a bod amrywiad eang yn statws a chynnwys eu cynlluniau. Er enghraifft:
- mae awdurdodau lleol yn tueddu i fod wedi paratoi cynllun wedi'i neilltuo i'r ddyletswydd. Fodd bynnag, roedd rhai'n cydnabod bod eu cynlluniau wedi dyddio.
  - mewn cyrff ieuchyd, lle mae cynlluniau wedi cael eu paratoi, maent yn tueddu i beidio â bod yn gynlluniau ar eu pen eu hunain; yn hytrach maent yn rhan o gynlluniau datgarboneiddio neu newid hinsawdd ehangach. Mae cwmpas y mentrau yn y cynlluniau hyn i'w weld yn fratiog.
  - mae cynlluniau cyrff llywodraeth leol yn tueddu i fod yn ddogfennau ar eu pen eu hunain yn hytrach na bod wedi'u hintegreiddio â dogfennau corfforaethol eraill.
  - mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol wedi integreiddio eu cynlluniau bioamrywiaeth fel rhan o gynlluniau corfforaethol cyffredinol a pholisïau, cynlluniau a rhaglenni ehangach.
  - mae gan y tri awdurdod tân gynllun bioamrywiaeth ar y cyd sy'n dilyn amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

---

25 Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar gyfer Adran 6 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: Cwestiynau Cyffredin, Chwefror 2022.

2.9 Mynegodd awdurdodau cyhoeddus farn gadarnhaol i raddau helaeth wrth ystyried i ba raddau yr oedd eu gwaith cynllunio ar fioamrywiaeth wedi'i integreiddio ac yn cyd-fynd â'u gwaith cynllunio a blaenoriaethau corfforaethol ehangach. Mewn ymateb i gwestiynau perthnasol yn ein Galwad am Dystiolaeth<sup>26</sup>:

- roedd 36 allan o 42 (86%) o awdurdodau cyhoeddus yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu gwaith cynllunio ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau wedi'i integreiddio â'u gwaith cynllunio corfforaethol ar y cyfan. O'r lleill, nid oedd pump (12%) yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd un (2%) yn anghytuno.
- roedd 35 allan o 42 (83%) o awdurdodau cyhoeddus yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu gwaith cynllunio ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'n cyd-fynd â pholisïau, cynlluniau, a rhaglenni sefydliadol ehangach, er enghraifft sero net. O'r lleill, nid oedd chwech (14%) yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd un (2%) yn anghytuno.

### **Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau adrodd a thempled dewisol, nid yw oddeutu chwarter yr awdurdodau cyhoeddus erioed wedi llunio adroddiad bioamrywiaeth**

2.10 Mae'r ddyletswydd yn dweud bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau sy'n nodi'r hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus adrodd bob tair blynedd. Dylai awdurdodau cyhoeddus fod wedi adrodd am y tro cyntaf cyn diwedd 2019 ac yna cyn diwedd 2022. Bydd hi'n bryd iddynt adrodd eto cyn diwedd 2025.


2.11 Mae **Arddangosyn 8** yn nodi pryd y gwnaeth awdurdodau cyhoeddus o fewn cwmpas ein gwaith gyhoeddi eu hadroddiad bioamrywiaeth diweddaraf. Mae'n dangos nad yw 14 allan o 53 (26%) o awdurdodau cyhoeddus erioed wedi cyhoeddi adroddiad bioamrywiaeth. O'r 39 (74%) o awdurdodau cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi adroddiad, adroddodd pump ddiwethaf cyn 2022, adroddodd 23 ddiwethaf yn ystod 2022 ac adroddodd 11 ddiwethaf ar ôl 2022.

---

<sup>26</sup> Yn y dadansoddiad hwn rydym wedi cynnwys yr holl awdurdodau cyhoeddus a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol, pa un a oes ganddynt gynllun bioamrywiaeth wedi'i gyhoeddi ai peidio.

## Arddangosyn 8: y flwyddyn pan gyhoeddodd awdurdodau cyhoeddus adroddiad bioamrywiaeth ddiwethaf dan y ddyletswydd

Dyddiad yr adroddiad diweddraf



Ffynhonnell: Galwad Archwilio Cymru am Dystiolaeth, a ategwyd gan waith pellach i gasglu tystiolaeth. Gweler **Atodiad 1** am ragor o fanylion.

Nodyn: O'r 23 o awdurdodau cyhoeddus a adroddodd am ddiwethaf yn 2022 (blwyddyn olaf y cylch adrodd diwethaf), roedd 17 yn gyrrff llywodraeth leol (cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub), roedd tri yn gyrrff iechyd, ac roedd tri yn gyrrff llywodraeth ganolog.

2.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau ar adrodd (gweler **paragraffau 1.12 i 1.15**) a thempled adrodd i awdurdodau cyhoeddus ei ddefnyddio. Mae'r templed yn seiliedig ar y chwe amcan yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (gweler **paragraff 2.3**). Dywedodd rhai awdurdodau cyhoeddus wrthym eu bod yn meddwl bod y templed ar gyfer adroddiad yn offeryn defnyddiol. Roedd eraill yn teimlo bod angen gwelliannau, er enghraifft i deilwra'r templed yn well ar gyfer awdurdodau cyhoeddus o wahanol fathau a meintiau.

2.13 Nid yw'r templed adrodd wedi'i fandadu. Mae dogfen ganllaw graidd<sup>27</sup> yn datgan, 'Anogir sefydliadau i benderfynu ar eu ffyrdd eu hunain o adrodd yn ôl – gallai hyn unwaith eto fod yn rhan o'u systemau a/neu broses adrodd yn ôl arferol, megis eu hadroddiad blynyddol, neu gallai fod yn ddogfen benodol'.

27 Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar gyfer Adran 6 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: Cwestiynau Cyffredin, Chwefror 2022

- 2.14 Dim ond 13 allan o 30 (43%) o'r awdurdodau cyhoeddus sydd wedi adrodd oedd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi defnyddio'r templed wrth baratoi eu hadroddiad<sup>28</sup>. Ar y cyfan, mae ein hadolygiad wedi dangos anghysondeb o ran arddull, dull, cynnwys, amseriad, a mynychder wrth adrodd. Er enghraifft, canfuom gymysgedd o adroddiadau'n bodoli ar eu pen eu hunain ac adroddiadau'n cael eu hintegreiddio â mecanweithiau eraill megis adroddiadau blynyddol neu adroddiadau ar berfformiad amgylcheddol. Roedd lefel y manylder mewn adroddiadau'n amrywio hefyd o rai disgrifiadau byr iawn o enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd gan awdurdodau cyhoeddus i ddiweddariadau cynhwysfawr ar gynnydd yn erbyn cynlluniau bioamrywiaeth.
- 2.15 Mae anghysondeb o'r fath yn ei gwneud hi'n anodd cymharu'r camau gweithredu y mae gwahanol awdurdodau cyhoeddus wedi'u cymryd mewn ymateb i'r ddyletswydd. Er bod ei thempled adrodd yn bodoli, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod arni eisiau galluogi awdurdodau cyhoeddus i ddefnyddio dull hyblyg o ran sut y maent yn rhoi'r ddyletswydd ar waith. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd sefydlu darlun cenedlaethol cyffredinol o sut y mae'r ddyletswydd wedi cael ei chyflawni.


**Rhoddodd awdurdodau cyhoeddus farn a oedd yn gadarnhaol at ei gilydd ynglŷn â'u trefniadau mewnol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth ond, ar y cyfan, mae'n dal yn wir bod angen iddynt wneud mwy i greu diwylliant sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar yr argyfwng natur**

- 2.16 Rhoddodd awdurdodau cyhoeddus farn a oedd yn gadarnhaol at ei gilydd ynglŷn â'u trefniadau mewnol ar gyfer arwain a monitro camau gweithredu ar fioamrywiaeth (gweler **Arddangosyn 9**). O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol yn ein Galwad am Dystiolaeth:
- roedd 35 allan o 41 (85%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod gan eu sefydliad linellau cyfrifoldeb eglur ar gyfer arwain gwaith i gyflawni ei gynllun/camau gweithredu bioamrywiaeth; ac
  - roedd 31 allan o 41 (76%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu sefydliad wedi sefydlu prosesau llywodraethu eglur ar gyfer monitro cynnydd gyda'i gamau gweithredu mewn perthynas â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.


28 Yn y dadansoddiad hwn rydym wedi cynnwys dim ond yr awdurdodau cyhoeddus hynny sydd wedi cyhoeddi adroddiad bioamrywiaeth. Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus na wnaethant ymateb i'r cwestiwn perthnasol yn ein Galwad am Dystiolaeth neu na wnaethant gyflwyno ymateb o gwbl.

### Arddangosyn 9: barn awdurdodau cyhoeddus ynglŷn â'u trefniadau mewnol ar gyfer arwain a monitro camau gweithredu ar fioamrywiaeth

Ymatebion i'r datganiad, 'Mae gan ein sefydliad linellau cyfrifoldeb eglur ar gyfer arwain gwaith i gyflawni ei gynllun/camau gweithredu bioamrywiaeth'.



Ymatebion i'r datganiad, 'Mae ein sefydliad wedi sefydlu prosesau llywodraethu eglur ar gyfer monitro cynnydd gyda'i gamau gweithredu mewn perthynas â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'.



Ffynhonnell: Galwad Archwilio Cymru am Dystiolaeth.

Nodyn: Ni wnaeth 12 o awdurdodau cyhoeddus ymateb i'r cwestiwn hwn neu ni wnaethant gyflwyno ymateb o gwbl. Yn y dadansoddiad hwn rydym wedi cynnwys yr holl awdurdodau cyhoeddus a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol, ni waeth pa un a oes ganddynt gynllun bioamrywiaeth wedi'i gyhoeddi ai peidio.

- 2.17 Er nad ydym wedi gwerthuso'r trefniadau hyn, datgelodd ymatebion ystod eang o wahanol systemau a threfniadau sydd ar waith ar gyfer goruchwyllo a llywodraethu mewnol mewn awdurdodau cyhoeddus. Roedd y rhain yn amrywio o weithgorau ar lefel swyddogion, byrddau rhaglenni penodol, ac adrodd ar lefel bwrdd neu gabinet.
- 2.18 Crybwyllodd rhai awdurdodau lleol fod pwyllgorau craffu'n cyfranogi mewn goruchwyllo gwaith bioamrywiaeth. Mewn cyrff iechyd, tueddir i graffu ar fioamrywiaeth trwy strwythurau llywodraethu ar gyfer yr agenda ddatgarboneiddio ehangach. Mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol wedi gwreiddio trefniadau monitro fel rhan o waith cynllunio ac adrodd corfforaethol ehangach.
- 2.19 Er gwaethaf y farn gadarnhaol yn gyffredinol a adlewyrchir yn **Arddangosyn 9**, dywedodd awdurdodau cyhoeddus fod materion capasiti a gallu'n effeithio ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd, yn enwedig y tu allan i lywodraeth leol. Fel a ddisgrifir ym **mharagraff 1.30**, fe ddwedon nhw wrthym hefyd fod cyllid refeniw allanol byrdymor yn golygu nad yw swyddi i gefnogi camau gweithredu ar fioamrywiaeth yn ddiogel.
- 2.20 Dim ond 27 allan o'r 41 (66%) o awdurdodau cyhoeddus a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol yn ein Galwad am Dystiolaeth oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ganddynt fynediad at ddigon o arbenigedd. O'r lleill, nid oedd pump (12%) yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd naw (22%) yn anghytuno.
- 2.21 Canfu gwerthusiad 2021 fod y ddyletswydd wedi cyfrannu at wreiddio bioamrywiaeth yn fwy mewn prosesau penderfynu a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, dim ond 20 allan o'r 40 (50%) o awdurdodau cyhoeddus a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol yn ein Galwad am Dystiolaeth oedd yn cytuno bod camau gweithredu ar fioamrywiaeth wedi'u gwreiddio'n llawn drwy'r sefydliad cyfan ac yn ei brosesau penderfynu. O'r lleill, nid oedd 11 (28%) yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd naw (23%) yn anghytuno.
- 2.22 Roedd rhai awdurdodau cyhoeddus yn cydnabod bod angen newid sylweddol yn eu diwylliant mewnol, a mwy o hyfforddiant, i gyflawni'n effeithiol yn erbyn y ddyletswydd a'r argyfwng natur ehangach. Mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio y bydd ei chynigion ar gyfer newidiadau i gyfraith amgylcheddol yn cryfhau ymatebion awdurdodau cyhoeddus. Amser a ddengys, serch hynny.



# Atodiadau

---

- 1 Ynglŷn â'n gwaith
- 2 Camau ymarferol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth



# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwestiwn, cwmpas a meini prawf yr archwiliad

Fe wnaethom ni ystyried a yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill yn ymateb yn briodol i'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau estynedig (y ddyletswydd) Adran 6 dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Fe wnaethom fwrw golwg ar arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru ac ar gamau gweithredu y mae hi ei hun yn eu cymryd. Fe wnaethom hefyd ystyried sut yr oedd awdurdodau cyhoeddus eraill wedi ymateb, yn bennaf o ran y gofynion cynllunio ac adrodd (gweler **Arddangosyn 1**). Nid ydym wedi gwneud gwaith maes lleol i archwilio camau gweithredu sy'n ymwneud â bioamrywiaeth gan awdurdodau cyhoeddus mewn mwy o fanylder.

Wrth ddatblygu ein meini prawf archwilio, fe wnaethom ystyried y dyletswyddau statudol a nodir yn y Ddeddf a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Fe wnaethom hefyd ystyried canfyddiadau gwerthusiad o'r ddyletswydd yn 2021 a chanllawiau ar lywodraethu da. Rydym wedi nodi ein meysydd ffocws ar ddechrau pob rhan o'r adroddiad.

Wrth benderfynu pa awdurdodau cyhoeddus i'w cynnwys, fe wnaethom ystyried:

- ai Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd allanol. Er enghraifft, nid yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd cyrff addysg uwch ac addysg bellach.
- a yw awdurdod cyhoeddus yn amlwg wedi'i gwmpasu gan adran 6(9) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- a yw awdurdod cyhoeddus wedi'i gwmpasu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>29</sup>. Roedd hyn yn cynnwys y rhai yr estynnwyd y Ddeddf iddynt yn 2024.

Fe wnaethom hefyd gynnwys rhai cyrff llai neu fwy newydd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu harchwilio. Roedd y rhain yn cynnwys y pedwar Cydbwyllgor Corfforedig ac oddeutu 730 o gynghorau tref a chymuned. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau a thempledi adrodd ar wahân ar gyfer cynghorau tref a chymuned, nad ydym ni wedi eu hystyried fel rhan o'n gwaith ni.

---

<sup>29</sup> Er y gallai camau gweithredu ar foamrywiaeth ategu nodau eraill, un o'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru yw 'Cymru gydnerth'. Diffinnir hyn fel 'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)'.

Fe wnaethon gynnwys 53 o awdurdodau cyhoeddus o fewn cwmpas ein gwaith, a lle mae ein sylwebaeth ynghylch fframwaith Llywodraeth Cymru i gefnogi cydymffurfiaeth â'r Ddeddf yn y cwestiwn, mae'n ymwneud â'r hyn sy'n berthnasol i'r cyrff hyn. Roedd y rhain yn cynnwys 12 o gyrff y GIG (byrddau iechyd, ymddiriedolaethau iechyd, ac awdurdodau iechyd arbennig), 22 o awdurdodau lleol, y tri awdurdod tân ac achub, a'r tri awdurdod parc cenedlaethol. Roeddent hefyd yn cynnwys 13 o gyrff llywodraeth ganolog:

- Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)<sup>30</sup>.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- Amgueddfa Cymru.
- Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cymwysterau Cymru.
- Comisiwn y Senedd.
- Chwaraeon Cymru.
- Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Trafnidiaeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru.
- Awdurdod Cyllid Cymru.

Yn ystod ein gwaith, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu cynigion ar gyfer newidiadau i gyfraith amgylcheddol. Ym mis Ionawr 2024, fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch papur gwyn a oedd yn nodi cynigion cychwynnol<sup>31</sup>. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae hefyd wedi cyhoeddi ymateb i'r adborth hwnnw<sup>32</sup>. Fe rannom ni'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg gyda Llywodraeth Cymru i oleuo ei gwaith datblygu polisi.

---

30 Nid yw CCAUC yn bodoli mwyach. Mae'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a adwaenir fel Medr, wedi ysgwyddo swyddogaethau CCAUC. Daeth Medr yn llwyr weithredol o 1 Awst 2024.

31 Llywodraeth Cymru, [Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn: Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach](#), Ionawr 2024

32 Llywodraeth Cymru, [Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Egwyddorion amgylcheddol, llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn, Gorffennaf 2024](#), a Llywodraeth Cymru, [Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiwn GB13, Gorffennaf 2024](#).

Fe wnaethom hefyd drafod canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg gyda grŵp anffurfiol o randdeiliaid ar yr hinsawdd a natur a gynullwyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r 'Rhwydwaith Sefydliadau Cefnogi' hwn yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Tuag at ddiwedd ein gwaith, fe gyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith Senedd Cymru ei adroddiad ar Atal a Gwrthdroi Colli Natur erbyn 2030. Fe wnaethom ni'r Pwyllgor yn ymwybodol o gwmpas ein gwaith ar adeg gynnar yn ei ymchwiliad ac fe drafodom ni ein canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg gyda'i dîm clericio.

## Dulliau archwilio

### Adolygu dogfennau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau gan gynnwys:

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ei hun;
- dogfennau polisi megis: dogfennau strategaeth a chanllaw Llywodraeth Cymru, gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau cyhoeddus mewn ymateb i'n Galwad am Dystiolaeth, a deunyddiau a oedd yn ymwneud â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau i gyfraith amgylcheddol;
- crynodeb a gyhoeddwyd gan Ymchwil y Senedd yn 2019<sup>33</sup>.

### Galwad am Dystiolaeth

Wrth ddylunio ein Galwad am Dystiolaeth, fe wnaethom ystyried barn Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Fe anfonom ni'r ddogfen derfynol at y 53 o awdurdodau cyhoeddus a grybwyllir uchod. Fe ofynnem ni am wybodaeth a oedd yn berthnasol i'r modd yr oeddent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Fe ofynnem ni hefyd am eu barn ynglŷn â rhwystrau i gydymffurfio â'r ddyletswydd ac ynglŷn ag arweinyddiaeth strategol Llywodraeth Cymru.

Yn ystod gwanwyn 2024, fe gawsom ymatebion gan 45 o awdurdodau cyhoeddus. Nid oedd rhai o'r ymatebion yn ymdrin â'n holl gwestiynau.

Fe gysylltom ni'n ddiweddarach â'r awdurdodau cyhoeddus nad oeddent wedi ymateb i gadarnhau statws eu cynlluniau ac adroddiadau bioamrywiaeth. Mewn nifer fach o achosion, rydym wedi ffurfio barn pa un a yw dogfennau awdurdodau cyhoeddus yn ateb gofynion cynllunio ac adrodd y ddyletswydd.

---

33 Ymchwil y Senedd, Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Ionawr 2019

## Cyfweliadau lled strwythuredig

Fe gyfwelom ni â swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys staff o Cyfoeth Naturiol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Gweithdai

Fe gynhaliom ni dri gweithdy gyda staff o ddetholiad o awdurdodau cyhoeddus yn Y Fenni, Porthmadog, ac Abertawe yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2023, fel rhan o'n hymchwil gychwynnol. Fe wnaethom hefyd arsylwi ar dri gweithdy gan Lywodraeth Cymru gyda sefydliadau rhanddeiliaid – ym mis Mawrth, mis Gorffennaf, a mis Medi 2024 – a gafodd eu rhedeg gan y tîm a oedd yn datblygu'r newidiadau arfaethedig i gyfraith amgylcheddol.

## Dull Archwilio Cymru o gydymffurfio â'r ddyletswydd

Mae'r ddyletswydd yn cwmpasu Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Maent yn y grŵp o awdurdodau cyhoeddus sy'n perchnogi neu'n meddiannu adeilad swyddfa yn unig ac nad yw eu swyddogaethau'n uniongyrchol gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir (gweler **Atodiad 2**).

Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi a chyhoeddi cynlluniau bioamrywiaeth ar y cyd yn 2019<sup>34</sup> a 2023<sup>35</sup>. Fe wnaethant adrodd ddiwethaf trwy Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilio Cymru 2022-23<sup>36</sup> a hwythau wedi mabwysiadu dull tebyg y flwyddyn cynt ac yn dilyn adroddiad a gyhoeddwyd ar ei ben ei hun yn 2019. Byddant yn adrodd eto yn 2025-26.

---

34 Archwilio Cymru, [Adroddiad a Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau](#), Rhagfyr 2019

35 Archwilio Cymru, [Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2023 – 2027](#), Gorffennaf 2023

36 Archwilio Cymru, [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23](#), Mehefin 2023

## 2 Camau ymarferol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n adnabod tri grŵp o awdurdodau cyhoeddus. Mae'r grwpiau'n dylanwadu ar yr hyn y gallai cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn modd sy'n gyson â swyddogaethau awdurdod cyhoeddus ei olygu. Mae **Arddangosyn 10** yn darparu enghreifftiau sy'n tynnu ar ganllawiau Llywodraeth Cymru.

### Arddangosyn 10: camau gweithredu ymarferol y mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu y gallai awdurdodau cyhoeddus eu cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd

Cyd-destun	Enghreifftiau
<p>Grŵp 1</p> <p>Awdurdodau cyhoeddus sy'n perchnogi neu'n meddiannu adeilad swyddfa yn unig ac nad yw eu swyddogaethau'n uniongyrchol gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir.</p>	<p>Mae camau gweithredu posibl yn ymwneud â rheoli'r adeilad, caffael, cynaliadwyedd, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant neu bartneriaeth gyda sefydliadau eraill.</p> <p>Mae enghreifftiau'n cynnwys sicrhau bod cyflenwadau'r swyddfa'n cael eu caffael yn gynaliadwy, hyfforddiant i staff caffael mewn egwyddorion caffael cynaliadwy, asesiadau o'r risg i gynaliadwyedd, ac ystyried costau oes gyfan.</p>
<p>Grŵp 2</p> <p>Awdurdodau cyhoeddus sy'n perchnogi, yn meddiannu neu'n rheoli tir, eu hadeiladau a'u tir eu hunain, gyda swyddogaethau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir, neu sy'n gallu dylanwadu ar y rhai sy'n perchnogi neu'n rheoli tir.</p>	<p>Mae camau gweithredu posibl yn cynnwys y rhai uchod, a rheoli tir, rhaeadru meini prawf cyllid, a darparu addysg a hyfforddiant.</p> <p>Mae enghreifftiau'n cynnwys cyflwyno rhaglen sefydlu ar gynaliadwyedd i staff, sy'n cwmpasu'r ddyletswydd, strategaeth a chynllun gweithredu bioamrywiaeth y sefydliad, a'i brosiectau bioamrywiaeth.</p> <p>Enghraifft arall yw gadael ardal werdd ar hyd llinell ffens heb ei thorri i alluogi glaswellt a mieri i dyfu. Neu adael canghennau wedi'u torri ar y llawr i bydru'n naturiol a darparu cynefin ar gyfer pryfed.</p>

## Cyd-destun

## Enghreifftiau

## Grŵp 3

Awdurdodau cyhoeddus sy'n perchnogi neu'n rheoli tir y tu hwnt i'w tir eu hunain, pa un a oes ganddynt swyddogaethau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir ai peidio.

Mae camau gweithredu posibl yn cynnwys y rhai uchod, a rheoli tir i gynnal a gwella bioamrywiaeth, a hybu cydnerthedd ecosystemau.

Mae enghreifftiau'n cynnwys newid cyfundrefnau torri gwair trwy ei dorri'n llai aml, cynyddu uchder y llafn, a gwaredu gwair a dorrwyd.

Enghraifft arall yw ychwanegu cwestiwn bioamrywiaeth at werthusiadau blynyddol o wasanaethau i ddarparu llinell sylfaen i farnu perfformiad mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru o enghreifftiau o [Cyflwyniad i Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Adran 6](#)

Nodyn: Mae gwefan [Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru](#) a [chanllawiau adrodd Llywodraeth Cymru'n nodi diffiniadau Llywodraeth Cymru o dri grŵp gwahanol o sefydliadau.](#)



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:gwybodaeth@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.